**Cyfarfod Cynefinoedd â Blaenoriaeth Grŵp Ecosystemau Arfordirol Cymru 7fed Rhag, 2010 Aberystwyth**

**Yn bresennol:** Peter Rhind –Cadeirydd (CCGC); Mike Howe (CCGC); Duncan Ludlow (CCGC); Jan Sherry (CCGC –drwy fideogynadledda); Matty Murphy (CCGC); Chris Wynne (Ymddiriedolaethau Natur Cymru); Sean McHugh (PBC)

**Ymddiheuriadau:** Mark Winder (Cyngor Dinas Abertawe/LBAPs De Cymru); Rod Jones (CCGC); Quentin Grimley (CCGC); Mike Bailey (CCGC); David Cowley (CS Ynys Môn / LBAPs Gogledd Cymru); Richard Brassington (AAC); Richard Ellis (Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

Croesawodd Peter bawb i'r cyfarfod.

**Mapio Blaenoriaethau**

Ymunodd Jan Sherry (CCGC) drwy fideogynadledda ac aeth â'r grŵp drwy'r broses o fapio cynefinoedd â blaenoriaeth (gweler y cyflwyniad ynghlwm). Y lefel dyngedfennol i'r Grŵp yw Lefel 3 gan fod y grŵp yn gyfrifol am bennu camau gweithredu â blaenoriaeth ar y lefel hon. Mae angen crynodeb o'r camau gweithredu â blaenoriaeth i bob cynefin a gallwn edrych ar y gwaith sydd wedi'i wneud gan Grŵp Rhostir a Glaswelltir yr Iseldir.

**GWEITHREDU:** Peter Rhind i adolygu'r crynodeb rhostir a glaswelltir yr iseldir a chynhyrchu crynodeb arfordirol ar gyfer pob prosiect unwaith y bydd y blaenoriaethau ar eu gwedd derfynol.

Yn fyr, mae'r ymarferiad Mapio Cynefinoedd â Blaenoriaeth yn defnyddio gwybodaeth GIS ac arolygu i greu 3 lefel o fynegiant gofodol, sy'n cael eu hamlinellu isod. Mae llawer o'r gwaith wedi'i fwriadu i fwydo i Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a disgwylir y bydd pob cynefin wedi'i gynnwys am y tro cyntaf erbyn mis Ionawr. Bydd y gwaith yn holl bwysig hefyd fel arweiniad i weithredu er mwyn gwireddu'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yng Nghymru.

**LEFEL 1**
**Dosbarthiad cynefin â blaenoriaeth, Sylfaen Adnoddau'r cynefin a rhwydweithiau cynefin.**
Bydd yn ymgorffori gwaith Jim Latham, yn defnyddio pecyn y Comisiwn Coedwigaeth, gan ddechrau gyda chynefinoedd glaswelltir a phob cynefin maes o law. Bydd yn edrych ar rwydweithiau craidd a chanolog ac yn rhoi sgôr i wahanol gynefinoedd (cynefinoedd â blaenoriaeth a rhai di-flaenoriaeth) yn y rhwydwaith. E.e. os yw'r cynefin â blaenoriaeth wrth ymyl glaswelltir wedi'i wella bydd yn cael pwysiad llai am gysylltedd yn yr asesiad.

**LEFEL 2**
**Rheoli cynefin â blaenoriaeth, adfer ac ehangu Ardaloedd**
Mae'n nodi ardaloedd allweddol i dargedu gweithredu atynt e.e. ardaloedd adfer wedi'u seilio'n bennaf ar Glastir gyda newidiadau fel sy'n briodol. Bydd yn bwydo i ffrwd waith Tystiolaeth Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.

**LEFEL 3**
**Gweithredu o ran Cynefinoedd â Blaenoriaeth**
Grwpiau Ecosystemau fydd yn arwain ar hyn. Lleoliadau tyngedfennol i weithredu ynddynt o safbwynt bioamrywiaeth, i'w hadfer ac i atal

colledion bioamrywiaeth. Seilir hyn ar flaenoriaethau cynefin LBAP h.y caiff math(au) o gynefin â blaenoriaeth eu targedu ym mhob ardal LBAP. Caiff crynodeb byr o'r camau gweithredu â blaenoriaeth a'r rhywogaethau a fydd yn elwa o'r gweithredu ei gynhyrchu am bob lleoliad. Bydd hyn yn arweiniad i waith LBAP a bydd yn cynhyrchu rhestr o gamau gweithredu y gallai LlC ymrwymo iddi. Gellid defnyddio Glastir fel cyfrwng ariannu. At ei gilydd bydd rhywogaethau'n cael eu hintegreiddio i gynefinoedd ar y lefel hon. Mae rhai rhywogaethau a chynefinoedd cyffredin yn anodd ymdrin â nhw'n ofodol. Bydd angen ystyried y rhain o hyd drwy bolisi e.e. NER CDLlau, ac ati.

| **Cynefin â Blaenoriaeth** | **Sylwadau** | **Gweithredu/ Ardaloedd Blaenoriaeth y Grŵp** | **Amserlen weithredu** |
|---|---|---|---|
| Rhostir a glaswelltir arfordirol | Mae grŵp rhostir a glaswelltir yr iseldir wedi cwmpasu'r rhan fwyaf o hyn yn ei ddadansoddiad. | Archwilio haenau GIS rhostir a glaswelltir yr iseldir a'u hehangu/diwygio fel sy'n briodol. Awgrymwyd Sir Benfro fel ardal ffocws. | MAH i ystyried ehangu ffiniau rhostir a glaswelltir yr iseldir i gynnwys e.e. Porth Neigwl. MAH i gynhyrchu mapiau a symbolau erbyn 2011<br><br>CW i gysylltu â CS Gwynedd ynglŷn â safle Porth Neigwl |
| Twyni tywod | Cyf: Adroddiad CCGC (Dargie a Houston) ar adfer symudedd twyni tywod (dosbarthwyd copi; cysylltwch â Sean os oes angen copi arnoch). | Bydd Peter yn tynnu'r 9 safle o'r adroddiad ac yn gosod blaenoriaethau. Bydd hefyd yn cynnwys prosiect Dŵr Croyw'r Gorllewin (Sir Benfro). | MAH i gynhyrchu mapiau polygon a chrynodeb erbyn Chwe 2011 |
| Morfa Heli Arfordirol | Y Grŵp Ecosystemau Arfordirol fydd yn gosod camau gweithredu â blaenoriaeth. Bydd y Grŵp Morol yn gosod targedau cyfun i forfa heli a gwastadeddau llaid. Cynhyrchodd Natasha Lough (CCGC) adroddiad ar Newid Arfordirol a fydd yn dylanwadu ar y | Moryd Dyfrdwy; Traeth Lafan (Conwy); Moryd Mawddach; Safleoedd a nodwyd yn Adroddiad Lough. Ardaloedd blaenoriaeth, i gynnwys ailalinio arfordirol a gwell rheolaeth ar safleoedd presennol i wella strwythur a blodeueg. | Ardaloedd blaenoriaeth i gael eu nodi a'u mapio gan PR ac Asiantaeth yr Amgylchedd erbyn Chwe 2011 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | safleoedd a ddewisir ***(a wnaiff rhywun anfon hwn neu ddarparu dolen)*** | | |
| Clogwyni Meddal | Archwilio'r haenau GIS am rostir a glaswelltir yr iseldir a'u hehangu/ diwygio fel sy'n briodol e.e. i ystyried clogwyni meddal. | Edrych ar brosiectau presennol rhostir a glaswelltir yr iseldir yn Llŷn ac ar Arfordir De Gŵyr ac ystyried ehangu'r ffiniau. | MAH i fapio a chynhyrchu crynodeb o safleoedd Gogledd Llŷn ac Arfordir De Gŵyr erbyn Chwe 2011. |
| Graean bras arfordirol â llystyfiant | Cynnal prosesau geomorffolegol ar safleoedd gwarchodedig a safleoedd anstatudol mwy. | Bae Cemlyn; Pen Sarn (Abergele)- adfer y traeth; Aberddawan; Morfa Dinlle (Gwynedd)- tynnu amddiffynfeydd arfordirol ac ati; traeth Niwgwl– cael gwared â'r ffordd a'r meysydd parcio? | MAH i fapio safleoedd graen bras arfordirol â llystyfiant sydd wedi'u rhestru erbyn Chwe 2011. |

O ystyried yr uchod, bydd Peter Rhind yn newid y fframwaith Camau Gweithredu Arfordirol ac yn cynnwys y sylwadau a gafwyd gan Mike Howe a Richard May. Cylchredir hyn i'r grŵp am eu sylwadau.

**GWEITHREDU:** Peter Rhind i ddiweddaru'r Fframwaith Camau Gweithredu Arfordirol a'i gylchredeg i'r grŵp.

### Dyfarnu arian i'r Grŵp Ecosystemau Arfordirol

Cynllun grant LlC a weinyddir gan Amgylchedd Cymru; uchafswm o 15K, yn agored i fudiadau sector gwirfoddol. Y dyddiad cau i geisiadau yw 7fed Ion 2011. Mae gofyn gwario'r arian erbyn mis Ebrill 2012. Mae Chris Wynne yn cyflwyno prosiect wedi'i seilio ar raean bras Bae Cemlyn. Mae angen i gynigion prosiect gael eu cymeradwyo gan gadeirydd y grŵp ecosystemau. Bydd Duncan Ludlow yn cysylltu â grwpiau yn y De i geisio prosiectau addas.

**GWEITHREDU:** Cysylltwch â Peter os oes gennych brosiectau addas.

Sean McHugh i ofyn i Richard Ellis a yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cyflwyno prosiectau, a'r cynnydd ar brosiect Dŵr Croyw'r Gorllewin. Mae *Butterfly Conservation* yn debygol o gyflwyno prosiect yng Ngheredigion i wella glaswelltir arfordirol ar gyfer y fritheg berlog. Mae CCGC yn gobeithio gwella'r borfa ar lethrau clogwyni a chloddio banciau nythu yn y clogwyni meddal y gaeaf hwn ym Mhorth Neigwl i helpu Osmia xanthomelana.

### Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol

Nid oedd gan y grŵp amser i drafod hyn yn fanwl. Y dyddiad cau i ymatebion yw 31ain Rhag 2010.

#### Cyfathrebu rhwng LBAP ac Asiantaethau

Nodwyd bod angen i'r Grŵp roi gwybod i gynulleidfa ehangach am ei ddyheadau, ei gamau gweithredu a'i gynllun gwaith.

**GWEITHREDU**: Pawb i anfon eich syniadau at Sean McHugh os gwelwch yn dda. I'n cychwyn ar y daith dyma rai pethau i'w hystyried: erthygl yn Natur; cynrychiolydd o'r grŵp yn cael slot mewn cyfarfod LBAP/Asiantaeth wedi'i dargedu; datblygu negeseuon allweddol i'w dosbarthu i gynulleidfa ehangach.

### Unrhyw Fater Arall

Presenoldeb yn y cyfarfod. Cofnodwyd nifer isel yn bresennol – dim ond chwech, ac o'r rheini roedd pedwar o CCGC. Nodwyd mai anaml y ceir sylwadau ar yr eitemau ar yr agenda, adroddiadau arfordirol ac ati. Mae cyfarfod llawn nesaf y Grŵp i fod o gael ei gynnal ym mis Ebr/Mai 2011 ac mae'r opsiwn ar gael inni gyfarfod yn Sir Benfro a mynd ar ymweliad maes neu gynnal fideo/telegynhadledd.

**GWEITHREDU:** A wnewch chi roi gwybod pa un fyddech chi'n ei ffafrio.